24.02.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880364

---

**Crynodeb Rownd a Rownd W10** Summary **05 – 11 Mawrth/**March

---

Drannoeth y ddamwain ac mae Philip a Ken yn gleisiau i gyd ond mewn hwyliau rhyfeddol. Mae'r rhimyn aur i'r cwmwl du yn dod yn amlwg i bawb wrth i Ken ddychwelyd i dŷ'r Ks ac mae'r gymuned gyfan wrth eu boddau.

Boddi ei ofidiau wna Vince druan wedi i Iolo fynnu bod rhaid dathlu'r ras feics noddedig, a chaiff Iolo yntau siom pan mae Rhian yn mynd adre'n sobor o fuan.

Mae Barry a Jason benben unwaith eto wrth i ymweliad â bedd Iris ddod a'r holl deimladau annifyr yn boenus o agos i'r wyneb.

Mae diwrnod yr ymweliad â'r carchar wedi cyrraedd ac mae Ioan yn edrych ymlaen yn arw i weld ei fam tra bod Efan yn dal yn benderfynol nad ydi o am fynd. Bydd yn ddiwrnod anodd i Llŷr mewn sawl ystyr.

Mae Iestyn, yntau, yn cael diwrnod anodd hefyd wrth geisio gwneud ffafr ag Anest yn yr Iard ac er nad oes ganddo ddiddordeb o gwbl yn y gweithgareddau bydd yn darganfod ei hun mewn dyfroedd dyfnion.

**Rownd a Rownd**
**Pob Nos Fawrth a Nos Iau 8.25, S4C**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic; BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Rondo Media ar gyfer S4C**

It's the day following the crash and both Philip and Ken are covered in bruises but in good spirits. The bright skies after the storm become apparent as Ken returns home to the Ks' house and everyone is delighted to see this.

Vince drowns his sorrows at Copa when Iolo insists that they celebrate the money raised at the cycle race, and Iolo is disappointed when Rhian goes home early.

Barry and Jason are at each other's throats again as a visit to Iris's grave brings back all the painful feelings.

While Llŷr tries to come to terms with the difficult day ahead of him, Ioan is looking forward to seeing his mum and Efan is still adamant that he won't be visiting her in prison.

Iestyn finds himself in a bit of pickle while trying to help out at the Iard.

**Rownd a Rownd**
**Every Tuesday and Thursday 8.25, S4C**
**English and Welsh subtitles**
**On demand: S4C Clic; BBC iPlayer and other platforms**
**A Rondo Media production for S4C**